# Rhys **Phillips**

***Teitl Swydd:*** *Peiriannydd Corfforaethol graddedig, EADS (European Aeronautic Defence and Space Company)*
***Cymwysterau:*** *BSc mewn Mathemateg a Ffiseg*

**Rwyf wedi meddwl erioed bod mathemateg yn bwnc rhyfeddol o amlbwrpas sy'n agor llawer o ddrysau mewn bywyd. Ac mewn gwirionedd, rwyf wedi gweld bod mwy o gyfleoedd yn bodoli ar gyfer mathemategwyr nag yr oeddwn wedi'i dybio'n wreiddiol.**

Rwyf yn mwynhau deall sut mae rhifau'n gweithio, a phrydferthwch mathemateg yw ei bod yn fwy na chanfod yr ateb cywir, mae'n ymwneud â PHAM bod yr ateb hwnnw'n gywir a gwybod eich bod wedi cyrraedd ato. Yn lefel-A, fy mhynciau cryfaf oedd mathemateg a ffiseg. Gan nad oeddwn eto wedi penderfynu'n union pa fath o yrfa yr oeddwn eisiau mynd iddi, penderfynais barhau i astudio'r ddau yn y brifysgol fel gradd anrhydedd ar y cyd, er mwyn cadw fy opsiynau'n agored ar gyfer cyfleoedd swyddi ar ôl hynny.

Yn fy swydd i yn awr, rwyf yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau mathemategol: sgiliau trefnu sylfaenol i gadw ar ben pethau a chynllunio tasgau prosiect yn ôl graddfeydd amser priodol; sgiliau datrys problemau i ganfod datrysiadau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd; sgiliau modelu sy'n seiliedig ar hafaliadau mathemategol a'u hefelychu i gael canlyniadau perthnasol i'r byd go iawn.

Mae diwrnod nodweddiadol i mi yn cychwyn drwy nofio yn y pwll lleol ac yna rwy'n tueddu i gyrraedd y gwaith tua 8:30am. Mae fy nghylchdro presennol yn seiliedig ar ymchwil felly rwyf yn treulio'r rhan fwyaf o'r dydd yn gweithio mewn tîm yn modelu a rhedeg efelychiadau i brofi neu wrthbrofitheorïau amrywiol. Er bod y gwahanol raddedigion yma'n gweithio mewn gwahanol feysydd, rydym yn tueddu i gyfarfod am ginio er mwyn cael tipyn o newid ac i dorri ar y diwrnod. Y tu allan i'r gwaith, mae fy mhrif ddiddordeb mewn cerddoriaeth jas - yn gwrando a chwarae. Rwyf yn mynychu digwyddiadau jas byw yn rheolaidd a hefyd yn rhedeg fy mand jas fy hun y gwneuthum ei gychwyn yn y brifysgol. Felly ar ôl gwaith byddaf fel arfer yn cael rhyw fath o ymarfer neu gig gydag un o'r grwpiau yr wyf yn chwarae â nhw.

Heblaw am weithio fel gweinyddydd rhan-amser drwy gydol y chweched dosbarth a'r brifysgol, y Cynllun Graddedigion EADS yw'r swydd gyntaf yr wyf wedi ei chael.

# Rhys **Phillips**

***Job Title:*** *Corporate Graduate Engineer, EADS (European Aeronautic Defence and Space Company)*
***Qualifications:*** *BSc Mathematics and Physics*

**I have always thought that maths is a very versatile subject that opens a lot of doors in life. And in fact, I've seen that more opportunities exist for mathematicians than I originally thought.**

I enjoy understanding how numbers work, and the beauty of maths is that it is not just about getting the right answer, it is about *why* that answer is correct and knowing how you arrived at it. At A level my strongest subjects were maths and physics. As I hadn't yet decided exactly what sort of career I wanted to go into, I decided to continue studying both at university as a joint honours degree, keeping my options open for job opportunities afterwards.

In my job now, I use a variety of mathematical skills: basic organisational skills to keep track of things and plan project tasks to specific timescales; problem solving skills to find solutions in a variety of situations; modelling skills based on mathematical equations and simulating them to obtain results relevant to the real world.

A typical day for me starts with a quick swim at the local pool and then I tend to arrive at work for around 8:30am. My current rotation is research based so I spend most of the day working within a team modelling and running simulations to prove or disprove various theories. Although the various graduates here work in different areas, we tend to meet up for lunch which provides a change of scene to break up the day. Outside of work, my main interest is jazz music, both listening and playing. I regularly attend live jazz events and also run my own jazz band which I started while at university. So after work I normally have some sort of rehearsal or gig with one of the groups I play with.



*"The beauty of maths is that it is not just about getting the right answer."*

Apart from working as a part-time waiter throughout sixth form and university, the EADS Graduate Scheme is the first job I have had.